HM Government

# Cynllun Troseddu Economaidd 2

2023-2026

## Atodiad Data



OGL

© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3** neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost at: **psi@nationalarchives.gov.uk**

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **gov.uk/official-documents**

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom i'r cyfeiriad canlynol: **public.enquiries@homeoffice.gov.uk**

# Cynllun Troseddu Economaidd 2 – Atodiad Data

Nod y crynodeb hwn yw **dod â rhai data allweddol, cyfredol a chyhoeddedig ar dwyll, gwyngalchu arian, cleptocratiaeth a sancsiynau at ei gilydd**. Nid yw hwn yn grynodeb cynhwysfawr o'r dystiolaeth, ond mae'n ceisio rhoi syniad o'r mathau o ddata sydd eisoes ar gael ar y system trosedd economaidd.[1] Nid yw'r data hwn wedi'i fwriadu i weithredu fel dangosyddion perfformiad ar wahân. Rydym wedi nodi ein dull gweithredu ar gyfer datblygu ac ehangu'r data presennol yn ECP2 yng Ngham Gweithredu 43.

Rydym wedi nodi'r cyfeiriad teithio presennol ar gyfer pob pwynt data drwy gynnwys y newid canrannol (+/-) o'r flwyddyn flaenorol. Nid yw hyn yn ddangosydd llwyddiant, a'r bwriad yn unig yw rhoi syniad o'r duedd i gefnogi gwell dealltwriaeth o'r data.

## Dehongli a defnyddio data cyfredol

Ar ei ffurf bresennol, mae gan y data ar droseddu economaidd nifer o heriau a chyfyngiadau. Mae'r rhain yn ymwneud â'r hyn sy'n cael ei ddal neu beidio – er enghraifft, mae troseddau fel gwyngalchu arian yn gudd oherwydd eu natur, neu fel yn achos twyll, yn debygol o gael eu tan-adrodd. Felly, mae'r data sydd gennym yn debygol o gynrychioli is-set o'r broblem yn unig.

Mae cyfyngiadau ar gwmpas rhai o'r ffynonellau data sydd gennym ar hyn o bryd, er enghraifft, nid yw'n bosibl gwahaniaethu achosion gwyngalchu arian lefel uchel yn y data canlyniadau cyfiawnder troseddol. Mae'r ffynonellau data sydd ar gael hefyd yn berthnasol i wahanol rannau o'r DU oherwydd y gwahaniaethau yn y cyfrifoldeb dros blismona a chyfiawnder troseddol. Er enghraifft, nid yw Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn cynnwys yr Alban a Gogledd Iwerddon, sy'n cynnal arolygon ar wahân nad oes modd eu cymharu'n uniongyrchol â CSEW. Pan fydd data ar gael ar draws y DU, rydym wedi cynnwys hyn.

Yn olaf, mae rhywfaint o ddata ar gael ar draws sefydliadau gwahanol ac mewn fformatau gwahanol, sy'n gwneud defnyddio'r data hwn yn fwy heriol. Mae rhagor o fanylion, gan gynnwys y cryfderau a'r cyfyngiadau llawn ar gyfer pob ffynhonnell data, ar gael yn yr adroddiadau ffynhonnell. Rhoddir cyfeiriadau llawn yn y troednodiadau hefyd.

1 Mae'r data a nodir yn yr atodiad hwn yn defnyddio data sydd eisoes wedi'i gyhoeddi, sy'n gywir ar 28 Chwefror 2023.

Gall dehongli'r gwahanol ffynonellau data fod yn heriol hefyd. Ni ellir dehongli 'llwyddiant' drwy gynnydd neu ostyngiad syml yn y duedd ac nid yw cyfansymiau syml yn cyfleu 'ansawdd' pwynt data cysylltiedig. Er enghraifft:

- Mae'n bosibl na fydd cynnydd mewn lledaenu twyll[2] yn cael yr effaith a fwriedir os nad yw cynnwys y lledaeniad o ansawdd uchel, y gellir gweithredu arno.
- Gallai'r newidiadau yng nghyfanswm yr adroddiadau i Action Fraud fod oherwydd amrywiaeth o resymau – gan gynnwys mwy o adrodd drwy fwy o ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd – yn hytrach na bod hynny o reidrwydd yn arwydd o gynnydd yn nifer y troseddau.
- Nid yw data system megis nifer yr Adroddiadau Gweithgarwch Amheus (SARs)[3] yn addas ar gyfer asesu llwyddiant drwy gynnydd neu ostyngiad yn y tueddiadau. Gallai nifer o ffactorau fod yn gyfrifol am newidiadau yn nifer y SARs, a byddai hyn ond yn rhoi gwybodaeth am iechyd y system pan gaiff ei hasesu gyda gwybodaeth gyd-destunol ehangach. Ar ben hynny, nid yw gwrthodiadau Amddiffyniad yn erbyn Gwyngalchu Arian (DAML) bob amser yn arwain at wadu asedau neu at ganlyniadau gweithredol ehangach am amrywiaeth o resymau, felly nid yw'r ffigurau hyn ar eu pen eu hunain yn fesur da o effaith.
- Ar gyfer gweithgarwch goruchwylio, gan gynnwys dirwyon, nid oes asesiad absoliwt o lwyddiant ar sail tueddiadau i fyny neu i lawr yn y data. Dim ond ar ôl ystyried y data fel cyfran o'r canlyniadau sy'n dod i ben â chamau goruchwylio niweidiol y gellir gwerthuso'r data. Dylid hefyd ystyried gwahaniaethau cymharol ym maint a gweithgareddau gwahanol sectorau yn y sector AML sy'n cael ei reoleiddio.
- Mae ansefydlogrwydd yng ngwerth cronfeydd wedi'u rhewi sy'n ymwneud â sancsiynau ariannol yn golygu na ellir cysylltu cynnydd neu ostyngiad yn uniongyrchol â'r effaith.

I grynhoi, **mae'r amrywiol elfennau a chyfyngiadau ym mhob set ddata yn ei gwneud yn anodd iawn deall cynnydd** ac mae angen eu hystyried wrth ddehongli'r data. Bydd angen amrywiaeth eang o ffynonellau data a dangosyddion perfformiad i gefnogi'r gwaith monitro parhaus ac i ddeall beth sy'n digwydd yng nghyd-destun ehangach Troseddu Economaidd.

2 Mae'r Swyddfa Gwybodaeth am Dwyll Genedlaethol (NFIB) yn gyfrifol am ddyrannu adroddiadau twyll i heddluoedd er mwyn iddynt ymchwilio iddynt – gelwir y rhain yn 'becyn lledaenu'.

3 Mae Adroddiadau Gweithgarwch Amheus (SARs) yn tynnu sylw asiantaethau gorfodi'r gyfraith at achosion posibl o wyngalchu arian neu ariannu terfysgaeth. Caiff SARs eu gwneud gan sefydliadau ariannol a gweithwyr proffesiynol eraill fel cyfreithwyr, cyfrifwyr a gwerthwyr tai lle mae ganddynt amheuon neu wybodaeth am wyngalchu arian neu ariannu terfysgaeth. Gall unigolion preifat eu cyflwyno hefyd.


# Lleihau Gwyngalchu Arian ac Adennill Asedau Troseddol.

## Maint gwyngalchu arian[4]

Mae'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA) yn asesu ei bod yn debygol iawn bod dros £12bn o arian troseddol yn cael ei gynhyrchu'n flynyddol yn y DU, ac yn bosibilrwydd realistig bod maint y gwyngalchu arian sy'n effeithio ar y DU (gan gynnwys drwy strwythurau corfforaethol y DU neu sefydliadau ariannol) yn gannoedd o biliynau o bunnoedd bob blwyddyn.

## Nifer yr Adroddiadau Gweithgarwch Amheus (SARs)[5]

Cafodd 901,255 o adroddiadau SARs eu derbyn gan Uned Gwybodaeth Ariannol y DU yn 2021-22 (+21%). Mae'r cynnydd hwn mewn adroddiadau SAR yn adlewyrchu twf o un flwyddyn i'r llall; un ffactor sy'n cyfrannu yw adroddwyr SAR newydd yn y sectorau Technoleg Ariannol a Chryptoarian.




Blwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2022

Ffynhonnell: NCA

## Cyfanswm yr asedau a wadwyd o ganlyniad i SARs Amddiffyn yn erbyn Gwyngalchu Arian (DAML)[6]

Yn 2021-22, gwrthodwyd 3% o SARs DAML a chaniatawyd 13% ohonynt. Cafodd cyfanswm o £305.7m ei wrthod i ddrwgweithredwyr yr amheuir eu bod yn droseddwyr o ganlyniad i geisiadau DAML (wedi'u gwrthod a'u caniatáu) (+121%).


4 Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (2021). **National Strategic Assessment of Serious and Organised Crime (nationalcrimeagency.gov.uk)**.

5 Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (2022). **Annual Report – United Kingdom Financial Intelligence Unit Suspicious Activity Reports 2022 (nationalcrimeagency.gov.uk)**.

6 Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (2022). **Annual Report – United Kingdom Financial Intelligence Unit Suspicious Activity Reports 2022 (nationalcrimeagency.gov.uk)**.

## Cyfran y cwmnïau sy'n cydymffurfio[7]

Yn 2021-22, ar draws y sector rheoledig, cafodd 51% o gwmnïau sy'n destun adolygiad desg (DBR) a 62% o ymweliadau ar y safle eu canfod fel rhai sy'n 'cydymffurfio'n gyffredinol' â rheoliadau atal gwyngalchu arian.





Blwyddyn a daeth i ben Ebrill 2022

Ffynhonnell: Adroddiad Goruchwylio HMT

7 Trysorlys EF (2022). **Anti-money laundering and countering the financing of terrorism: Supervision Report 2020-22 (publishing.service.gov.uk)**. Nid yw'r canrannau yn y graff yn adio i 100% gan fod rhai adolygiadau desg ac ymweliadau safle yn dal i aros am ganlyniad adeg cyhoeddi'r adroddiad Goruchwylio. Cafodd cyfyngiadau COVID-19 effaith ar allu goruchwylwyr i gynnal ymweliadau ar y safle, felly mae nifer yr ymweliadau ar y safle ar gyfer 2020-21 a 2021-22 yn is o lawer nag yr oeddent yn 2019-20. Mae 'PBS' yn golygu'r Goruchwylwyr Cyrff Proffesiynol cyfreithiol a chyfrifyddol.

## Nifer y sancsiynau a osodwyd gan Oruchwylwyr[8]

Cafodd 660 o sancsiynau (+56%) eu gosod yn 2021-22 gan oruchwylwyr, gan gynnwys tynnu 40 aelodaeth yn ôl, atal 6 aelodaeth a 614 o ddirwyon wedi'u rhoi.




Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2022

Ffynhonnell: Adroddiad Goruchwylio HMT

## Nifer a gwerth y dirwyon a roddwyd[9]


O'r 614 o ddirwyon a roddwyd ar gyfer Gwyngalchu Arian/Ariannu Terfysgaeth gan Oruchwylwyr yn 2021-22, cafodd cyfanswm o £504m ei gasglu (+362%).

8 Trysorlys EF (2022). **Anti-money laundering and countering the financing of terrorism: Supervision Report 2020-22 (publishing.service.gov.uk)**.

9 Trysorlys EF (2022). **Anti-money laundering and countering the financing of terrorism: Supervision Report 2020-22 (publishing.service.gov.uk)**.

## Nifer y troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu ar gyfer gwyngalchu arian[10]

Roedd 2,780 o droseddau wedi'u cofnodi gan yr heddlu ar gyfer gwyngalchu arian yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2022 (-18%).





Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2022 Ffynhonnell: ONS

10 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022). **Crime in England and Wales: Appendix tables – Office for National Statistics (ons.gov.uk).** I ganfod nifer y troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu bob blwyddyn, rydym yn defnyddio data a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn y set ddata 'Crime in England and Wales: Appendix tables'. Mae Tabl A4 yn cynnwys data am 'droseddau a gofnodwyd gan yr Heddlu yn ôl trosedd'. I nodi, mae'r data hwn yn cael ei ddiweddaru bob chwarter, felly mae'n bosibl y bydd y data'n newid. Mae'r ffigurau a ddefnyddiwyd yn gywir ar 28 Chwefror 2023.

## Nifer y gyhuddiadau gan yr heddlu am wyngalchu arian[11]

Roedd 1,801 o gyhuddiadau gan yr heddlu am droseddau gwyngalchu arian yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2022 (-2%).





Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2022 Ffynhonnell: Y Swyddfa Gartref

11 Y Swyddfa Gartref. **Police recorded crime and outcomes open data tables (gov.uk)**. Er mwyn canfod canlyniadau mathau unigol o droseddau, defnyddir y tablau 'data agored canlyniadau'. Mae'r ffeiliau Excel yn cynnwys 'tablau colynnu' sydd wedi'u llenwi'n barod, sy'n galluogi'r defnyddiwr i hidlo y math o drosedd (egwyddor) y mae'n dymuno dod o hyd i'r ffigurau canlyniadau ar ei gyfer. Yn yr achos hwn, rydym wedi hidlo yn ôl 'disgrifiad o drosedd' ar gyfer y trosedd 'elwa neu guddio gwybodaeth am enillion troseddau', (enw'r drosedd a roddwyd ar gyfer gwyngalchu arian). Mae dau fath o ffigurau canlyniadau – 'canlyniadau ar gyfer troseddau a gofnodwyd yn y chwarter' (arddull newydd) a 'canlyniadau a gofnodwyd yn y chwarter' (yr hen arddull) – rydym wedi defnyddio'r olaf (mae hyn yn cyd-fynd â'r canlyniadau twyll arbrofol a gyhoeddwyd yn y bwletin blynyddol). Mae rhagor o wybodaeth am ddefnyddio canlyniadau'r heddlu ar gael yn y 'canllawiau i ddefnyddwyr tablau data agored ar gyfer troseddau a chanlyniadau a gofnodwyd gan yr heddlu'. I nodi, mae data canlyniadau'r heddlu yn cael ei ddiweddaru bob chwarter, felly mae'n bosibl y bydd y data'n newid. Mae'r ffigurau a ddefnyddiwyd yn gywir ar 28 Chwefror 2023.

## Nifer y dedfrydau am wyngalchu arian[12]

Cafodd 1,083 o ddedfrydau eu rhoi yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022 (+5%) ar gyfer troseddau gwyngalchu arian. Roedd y gymhareb euogfarnau yn dal yn uchel, gyda chymhareb euogfarn o 89% yn yr un flwyddyn.





Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022 Ffynhonnell: MOJ

12 MOJ. **Criminal Justice System statistics quarterly: June 2022 (gov.uk)**. Mae'r 'offeryn data canlyniadau yn ôl troseddau' yn cael ei ddefnyddio i nodi nifer yr erlyniadau, euogfarnau a dedfrydau ar gyfer mathau unigol o droseddau (noder, nid yw'r adnodd hwn ar gael gyda phob datganiad – rydym wedi defnyddio mis Mehefin 2022). Gan ddefnyddio'r tablau colynnu sydd wedi'u llenwi'n barod, rydym wedi hidlo yn ôl 'trosedd' gan ddefnyddio '38 gwyngalchu arian'. Mae cyfarwyddiadau manwl ar ddefnyddio'r tabl colynnu ar gael yn y ffeil Excel. I nodi, mae data'r system cyfiawnder troseddol yn cael ei ddiweddaru bob chwarter, felly mae'n bosibl y bydd y data'n newid. Mae'r ffigurau a ddefnyddiwyd yn gywir ar 28 Chwefror 2023.

## Hyd y dedfrydau o garchar am wyngalchu arian[13]

O'r 1,083 o ddedfrydau a roddwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022, roedd 355 o'r rhain ar gyfer carchariad ar unwaith. Ar gyfartaledd, 2 flynedd ac 8 mis oedd hyd y ddedfryd o garchar yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022 (+4%).





Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022 Ffynhonnell: MOJ

13 MOJ. **Criminal Justice System statistics quarterly: June 2022 (gov.uk)**. Offeryn Canlyniadau yn ôl Troseddau.

## Gwerth yr asedau a adenillwyd[14]

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022, cafodd cyfanswm o £354m ei adennill ar gyfer pob math o drosedd, gan gynnwys Atafaelu, Gorchmynion Fforffediad a Gorchmynion Adfer Sifil (+61%). Mae ansicrwydd yn rhan annatod o'r system adfer asedau, oherwydd nifer fach o achosion gwerth uchel (£1m+). Roedd y rhain wedi sbarduno'r ffigurau eithriadol yn 2021-22.




Y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2022 Ffynhonnell: Bwletin Adfer Asedau y Swyddfa Gartref/JARD

14 Y Swyddfa Gartref (2022). **Asset recovery statistical bulletin: financial years ending 2017 to 2022 (gov.uk)**.
Cyflwynir ystadegau adfer asedau fel gwerthoedd enwol h.y. nid ydynt wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant ac nid yw unrhyw gymariaethau â blynyddoedd blaenorol yn cyfrif am chwyddiant. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **Asset recovery annual statistical bulletin: methodology and data quality report (gov.uk)**.

# Ymladd yn Erbyn Cleptocratiaeth ac Osgoi Sancsiynau.

## Gwerth cronfeydd wedi'u rhewi[15]


Dywedodd y Swyddfa Gweithredu Sancsiynau Ariannol (OFSI) fod £12.4bn o gyllid wedi'i rewi ac adnoddau economaidd yn cael eu dal gan fusnesau yn y DU ym mis Medi 2021 (+2%).

## Nifer yr achosion o dorri sancsiynau a nodwyd[16]

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022, ystyriodd OFSI 147 o adroddiadau am achosion posibl o dorri sancsiynau ariannol (+11%).

## Nifer y digwyddiadau ymgysylltu y mae'r OFSI yn cymryd rhan ynddynt, a'r sectorau a gyrhaeddwyd[17]

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022, bu OFSI yn cymryd rhan mewn 119 o ddigwyddiadau ar draws gwahanol sectorau y mae sancsiynau ariannol yn effeithio arnynt (+164%). Roedd OFSI hefyd wedi cynnal 125 o ddigwyddiadau rhannu gwybodaeth rhyngwladol – 31 ar gyfer meithrin gallu, 72 o gyfarfodydd dwyochrog a 22 digwyddiad amlochrog.




Y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2022

Ffynhonnell: OFSI

15 Swyddfa Gweithredu Sancsiynau Ariannol, Trysorlys EF (2022). **OFSI Annual Review – April 2021 to August 2022 (publishing.service.gov.uk)**. Nid yw'r ffigurau hyn ar gyfer Adolygiad o Asedau wedi'u Rhewi 2021 yn cynnwys cronfeydd wedi'u rhewi yr adroddwyd i OFSI eu bod yn cael eu dal gan neu ar ran pobl sydd wedi'u dynodi o dan drefn sancsiynau Rwsia ar ôl ymosodiad Rwsia ar Wcráin.

16 Office of Financial Sanctions Implementation, HM Treasury (2022). **OFSI Annual Review – April 2021 to August 2022 (publishing.service.gov.uk)**.


17 Swyddfa Gweithredu Sancsiynau Ariannol, Trysorlys EF (2022). **OFSI Annual Review – April 2021 to August 2022 (publishing.service.gov.uk)**.

# Lleihau Twyll

## Nifer troseddau Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW)[18]

Mae swm y twyll wedi gostwng o uchelfannau a welwyd yn ystod pandemig Covid. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2022 roedd 3.7 miliwn o achosion o dwyll wedi'u profi ymysg oedolion 16 oed a hŷn (dim newid sylweddol o'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020).

### Digwyddiadau twyll, Cymru a Lloegr





Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2022 2022 Ffynhonnell: Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr

18 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022). **Crime in England and Wales: Appendix tables – Office for National Statistics (ons.gov.uk)**. Atodiad tabl A1. Oherwydd atal y CSEW wyneb yn wyneb ar 17 Mawrth 2020, oherwydd pandemig y coronafeirws (COVID-19), mae tablau data o'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2020 i'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 hefyd yn cynnwys data o Arolwg Troseddu dros y Ffôn ar gyfer Cymru a Lloegr (TCSEW). Mae rhagor o wybodaeth am Cymaroldeb y ddau arolwg ar gael yma: **Comparability between the Telephone-operated Crime Survey for England and Wales and the face-to-face Crime Survey for England and Wales – Office for National Statistics (ons.gov.uk)**.

## Nifer yr adroddiadau i'r Swyddfa Genedlaethol Gwybodaeth am Dwyll[19]

Mae mwy a mwy o sefydliadau bellach yn cael eu cynrychioli gan UK Finance, sy'n arwain at gynnydd mewn adroddiadau twyll i NFIB (157% o gynnydd mewn adroddiadau yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2022, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol). Roedd cyfanswm yr adroddiadau i NFIB tua 1 miliwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2022. Gwelodd Cifas gynnydd o 14%, ond cafodd Action Fraud 23% yn llai o adroddiadau na'r llynedd.





Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2022 Ffynhonnell: NFIB

19 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022). **Crime in England and Wales: Appendix tables – Office for National Statistics (ons.gov.uk)**. Atodiad tabl A5.

## Nifer yr achosion unigryw o ledaenu twyll gan y Swyddfa Genedlaethol Gwybodaeth am Dwyll (NFIB)[20]


Bu 26,903 achos o ledaenu twyll yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022, cynnydd o 8% o'i gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021.




Blwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2022 Ffynhonnell: NFIB/Y Swyddfa Gartref

## Lefelau erlid mynych (yn y 12 mis blaenorol)[21]

Roedd 18% o'r dioddefwyr yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 yn ddioddefwyr mynych, roedd hyn yn sefydlog o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (17%) (CSEW).





Blwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2022 Ffynhonnell: Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr

20 Y Swyddfa Gartref (2022). Lledaenu twyll. **Crime outcomes in England and Wales 2021 to 2022: Statistical Bulletin (gov.uk)**.

21 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2022). **Crime in England and Wales: Annual Trend and Demographic Tables (ons.gov.uk)**.

## Nifer y cyhuddiadau gan yr heddlu am dwyll[22]

Roedd 4,816 o gyhuddiadau am dwyll yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 (-5%).





Y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2022

Ffynhonnell: Y Swyddfa Gartref – Canlyniadau Troseddau

22 Y Swyddfa Gartref (2022). **Crime outcomes in England and Wales 2021 to 2022: Statistical Bulletin (gov.uk)**. Bwletin ystadegol blynyddol yw hwn sy'n cynnwys ystadegau arbrofol ar gyfer canlyniadau sydd wedi'u neilltuo i droseddau'n ymwneud â'r Ddeddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron (CMA) a thwyll. Mae'r canlyniadau a gyflwynir yn seiliedig ar yr hen ganlyniadau, h.y. nifer y canlyniadau a gofnodwyd o fewn blwyddyn, ni waeth pryd y digwyddodd y trosedd. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019, cyflwynwyd y troseddau Twyll a Chamddefnyddio Cyfrifiaduron ar wahân am y tro cyntaf i roi rhagor o fanylion am ganlyniadau'r mathau cysylltiedig hyn o droseddau, sy'n wahanol o ran eu natur a'u hymchwiliad.

## Nifer y dedfrydau am dwyll[23]

Roedd 3,411 o ddedfrydau am dwyll yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 (-11%). Roedd y gymhareb euogfarnau yn dal yn uchel, gyda chymhareb euogfarn o 95% yn yr un flwyddyn.





Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022

Ffynhonnell: MOJ

23 MOJ. **Criminal Justice System statistics quarterly: June 2022 (gov.uk)**. Offeryn Canlyniadau yn ôl Troseddau. Er mwyn canfod canlyniadau cyfiawnder troseddol ar gyfer twyll, dewiswyd y codau trosedd canlynol – 51, 52, 53.4, 53.6, 53B.1, 53C, 53D, 53E, 53F. I nodi, mae data'r system cyfiawnder troseddol yn cael ei ddiweddaru bob chwarter, felly mae'n bosibl y bydd y data'n newid. Mae'r ffigurau a ddefnyddiwyd yn gywir ar 28 Chwefror 2023.

## Hyd dedfryd o garchar am dwyll[24]

O'r 3,411 o ddedfrydau a roddwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022, roedd 1,140 o'r rhain ar gyfer carchariad ar unwaith. Mae hyd cyfartalog dedfryd o gaethiwed wedi cynyddu ers 2018 ac roedd yn 2 flynedd a 3 mis yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022 (+11% o'i gymharu â 2021).




Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022 Ffynhonnell: MOJ

## Colledion twyll a adroddwyd[25]

NFIB: Cyfanswm y colledion a adroddwyd i Action Fraud yn ystod 2020-21 oedd £2.35bn (+2%) er gwaethaf gostyngiad yn nifer yr adroddiadau.

UK Finance: Roedd colledion twyll ariannol heb awdurdod ar draws cardiau talu, bancio o bell a sieciau yn gyfanswm o £730.4m yn 2021 (-7%). Yn ogystal â hyn, adroddodd aelodau UK Finance am 195,996 o achosion o sgamiau Taliadau Gwthio Awdurdodedig (APP) yn 2021 (+27%) gyda cholledion gros o £583.2m (+39%)[26].

24 MOJ. **Criminal Justice System statistics quarterly: June 2022 (gov.uk)**. Offeryn Canlyniadau yn ôl Troseddau.

25 NFIB (2021). **Annual Assessment. Fraud Crime Trends 2020-21 (actionfraud.police.uk)**.

26 UK Finance (2021). **Annual Fraud Report – The definitive overview of payment industry fraud in 2021 (ukfinance.org.uk)**.

## Atal twyll yn y sector bancio[27]

At ei gilydd, canfu cwmnïau Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI) werth £2.4bn o dwyll yn 2021.

## Atal twyll yn y sector yswiriant[28]

At ei gilydd, canfu cwmnïau Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI) werth £2.4bn o dwyll yn 2021.

Roedd 89,000 o hawliadau twyll wedi'u canfod yn 2021 (-5%), oedd yn werth £1.1bn (-2%). Yn ogystal â hyn, cafwyd 725,000 o achosion o dwyll wrth wneud cais (+6%) oedd yn werth £1.3bn (+21%).

27 UK Finance (2021). **Annual Fraud Report – The definitive overview of payment industry fraud in 2021 (ukfinance.org.uk)**.

28 Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI). **Own goals, cruise con, DIY vandalism – fall in insurance fraud good news for honest customers, but no room to go easy on the cheats says the ABI (abi.org.uk)**. Mae rhagor o ddata ar gael yma (pecyn 2g): **Data packages | ABI.**

HM Government